# ATODLENNI

## ATODLEN 2

Rheolau cynnal etholiad cynghorwyr ar gyfer prif ardal pan gynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad perthnasol

# RHAN 1

## Darpariaethau ynglŷn ag Amser

**Amserlen**

**1.**—(1) Rhaid i drafodion yr etholiad gael eu cynnal yn unol â'r amserlen a ganlyn.

**Amserlen**

| *Trafodion* | *Amser* |
|---|---|
| Cyhoeddi hysbysiad etholiad | Dim hwyrach na'r pumed diwrnod ar hugain cyn diwrnod yr etholiad |
| Danfon papurau enwebu | Dim hwyrach na 4 p.m. ar y pedwerydd diwrnod ar bymtheg cyn diwrnod yr etholiad |
| Danfon hysbysiadau tynnu ymgeisyddiaeth yn ôl | Dim hwyrach na 4 p.m. ar y pedwerydd diwrnod ar bymtheg cyn diwrnod yr etholiad |
| Cyhoeddi datganiad ynghylch y personau a enwebwyd | Dim hwyrach na 4 p.m. ar y deunawfed diwrnod cyn diwrnod yr etholiad |
| Hysbysiad o etholiad heb ornest<br><br>Hysbysiad o bleidlais mewn etholiad lle ceir gornest | Dim hwyrach na'r chweched diwrnod cyn diwrnod yr etholiad |
| Pleidleisio | Rhwng 7 a.m. a 10 p.m. ar ddiwrnod yr etholiad |

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys pan fo—

(a) papur enwebu yn cael ei anfon yn electronig neu ei gyflwyno ar-lein yn unol â threfniadau a nodir yn yr hysbysiad etholiad (gweler rheol 3), neu

(b) hysbysiad tynnu ymgeisyddiaeth yn ôl o dan reol 12 yn cael ei anfon yn electronig.

(3) At ddiben penderfynu a yw'r papur neu'r hysbysiad wedi ei ddanfon yn unol â'r amserlen ym mharagraff (1), mae'r papur neu'r hysbysiad i'w drin fel pe bai wedi ei ddanfon ar yr amser y mae ei ddanfon yn cael ei gofnodi ar y system gyfrifiadurol a ddefnyddir gan y swyddog canlyniadau ar gyfer derbyn y papur neu'r hysbysiad.

(4) Yn y rheol hon, ystyr "diwrnod yr etholiad" yw'r diwrnod a bennwyd yn hysbysiad yr etholiad fel y diwrnod y câi pleidlais ei chynnal pe ceid gornest.

**Cyfrif amser**

**2.**—(1) Mae diwrnod eithriedig i'w ddiystyru wrth gyfrif unrhyw gyfnod a nodir yn ail golofn yr amserlen yn rheol 1.

(2) Ni chaniateir i drafodion o dan y rheolau hyn hyd at gau'r bleidlais gael eu cynnal ar ddiwrnod eithriedig.

(3) Nid yw'n ofynnol i'r swyddog canlyniadau fwrw ymlaen â chyfrif pleidleisiau ar ddiwrnod eithriedig.